| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **27 Ionawr 2020** |
| **TEITL :** | **Cofrestr Buddiannau Aelodau** |
| **AWDUR :** | **Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol)** |
| **GWEITHREDU :** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Un o'r materion yn Rhaglen Waith y Pwyllgor yw derbyn adroddiad ar Gofrestr Fuddiannau aelodau.

**Cofrestr Buddiannau Aelodau Cyngor Gwynedd**

2. Dywed y Côd Ymddygiad i Aelodau bod raid i Gynghorwyr ddatgelu ar lafar gerbron unrhyw gyfarfod y maent ynddo, fodolaeth a natur unrhyw fuddiant personol sydd ganddynt mewn busnes sy'n cael ei ystyried yn y cyfarfod. Dywed ymhellach bod rhaid cofrestru'r buddiant hwnnw drwy roi hysbysiad ysgrifenedig yn cynnwys manylion y buddiant, manylion y busnes a llofnod i'r Swyddog Monitro.

3. Mae'r Côd Ymddygiad hefyd yn dweud bod yn rhaid i aelodau, o fewn 28 diwrnod ar ôl cael eu hethol, gofrestru eu buddiannau personol drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro. Rhaid hefyd ddarparu hysbysiad o unrhyw newid i'r buddiannau rheini ac o fodolaeth unrhyw fuddiannau newydd, o fewn 28 diwrnod o ddod yn ymwybodol ohonynt.

4. Er mwyn cynorthwyo aelodau i gadw at ofynion y Côd Ymddygiad, mae'r Cyngor wedi darparu dwy ffurflen, un sydd yn addas ar gyfer y cofrestru ymlaen llaw a'r llall ar gyfer cofrestru datganiadau a wneir mewn cyfarfodydd. Mae'r datganiadau a wneir ar y ddwy ffurflen yn ffurfio'r gofrestr fuddiannau. Atodir copïau o'r ffurflenni hyn.

5. Mae dyletswydd statudol ar y Swyddog Monitro i sefydlu a chadw'r gofrestr fuddiannau. Mae hon yn ddogfen gyhoeddus ac mae'n rhaid iddi fod ar gael yn un o swyddfeydd yr awdurdod i'w harchwilio gan aelodau o'r cyhoedd ar unrhyw adeg resymol. Hefyd mae'n rhaid iddi gael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor. Yn achos y cyngor hwn cedwir y gofrestr bapur yn y pencadlys yng Nghaernarfon neu gellir gweld datganiadau pob aelod drwy eu tudalennau personol ar y wefan. Bydd y datganiadau a wneir mewn cyfarfodydd hefyd i'w gweld yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw.

**Cynghorau Cymuned**

6. Mae'r darpariaethau statudol uchod hefyd yn berthnasol i gynghorau tref a chymuned ond gyda'r gwahaniaethau canlynol:

- Nid oes rheidrwydd ar aelodau i gofrestru buddiannau ymlaen llaw.
- Clerc y cyngor, yn hytrach na'r Swyddog Monitro sy'n gyfrifol am sefydlu a chadw'r gofrestr a derbyn hysbysiadau o fuddiannau.

7. Rydym wedi darparu copïau o ffurflenni Cyngor Gwynedd i'r cynghorau fel y gallant eu defnyddio fel templed pe dymunent. Tra nad oes rheidrwydd ar aelodau i gofrestru buddiannau ymlaen llaw, rydym yn hybu hyn fel arfer da i gynghorau tref a chymuned.

**Argymhelliad**

8. Gofynnir i'r Pwyllgor

(a) Dderbyn a nodi cynnwys yr adroddiad

(b) Gynnig unrhyw sylwadau ar gamau y gellid eu cymryd mewn perthynas â chofrestru buddiannau